# Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

## Cipolwg ar y codau

Cyhoeddwyd 24 Ebrill 2025

# Cipolwg ar y codau

1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r mesurau yn ein Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac i bwy maen nhw'n berthnasol. Mae'r mesurau'n cael eu trafod yn fwy manwl yng Nghyfrol 4 y datganiad hwn.

1.2 Mae'r tablau isod yn nodi'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Codau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac i bwy maen nhw'n berthnasol.[1]

1.3 Ar gyfer rhai o'r mesurau, bydd y mesur yn berthnasol i ddarparwr gwasanaeth penodol yn dibynnu ar lefel y risg ar y gwasanaeth, a yw'n bodloni meini prawf risg penodol eraill (ee cael swyddogaethau perthnasol), a/neu faint y gwasanaeth.

1.4 Rydym yn cyfeirio at 'wasanaethau mawr' ar gyfer mesurau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a mesurau chwilio. Rydym yn diffinio bod gwasanaeth yn fawr pan fo ganddo sylfaen defnyddwyr cyfartalog sy'n fwy na 7 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol bob mis yn y DU, sy'n cyfateb yn fras i 10% o boblogaeth y DU.

1.5 Rydym hefyd yn cyfeirio at 'aml-risg' ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth y mae'r darparwr wedi'i asesu i fod yn peri risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf ddau fath gwahanol o gynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae hyn, ac unrhyw feini prawf eraill sy'n ymwneud â lefelau risg, yn dibynnu ar ganlyniad asesiad risg plant y gwasanaeth fel y nodir yn y Canllawiau ar Asesiadau Risg i Blant.[2]

1.6 Ar gyfer gwasanaethau chwilio, mae rhai o'r mesurau'n gwahaniaethu rhwng dau fath o wasanaeth chwilio:

- Gwasanaethau chwilio cyffredinol, sy'n gweithredu drwy fynegai sylfaenol o URLs ac sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio'r rhyngrwyd drwy fewnbynnu ceisiadau chwilio; a
- Gwasanaethau chwilio fertigol, sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio am nwyddau, gwasanaethau neu bynciau penodol sy'n cael eu cynnig gan weithredwyr trydydd parti. Mae'r rhain yn gweithredu drwy ymholi gwefannau dethol yn fyw gan ddefnyddio Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) neu ddulliau cyfatebol.[3]

---

[1] Sylwch mai dim ond crynodebau o'r mesurau yn y Codau yw'r tablau canlynol. I gael manylion am y mesurau, edrychwch ar bennod perthnasol y datganiad a'r Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Ni ddylid tybio bod unrhyw beth yn y tablau hyn yn effeithio ar yr hyn a nodir yn y datganiad nac yn y Codau gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. (os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y crynodebau hyn a'r Codau gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, Codau'r gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a'r gwasanaethau chwilio fydd drechaf).

[2] Mae hyn yn tybio bod y darparwr wedi cynnal asesiad risg addas a digonol, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

[3] Edrychwch ar baragraffau 1.52 i 1.57 yn ein Trosolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i gael rhagor o drafodaeth ar y ddau gategori hyn o wasanaeth chwilio. Ffynhonnell: Ofcom, 2024. Trosolwg o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

# Mesurau ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr

**Tabl 1: Y Cod Ymarfer ar Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant[4]**

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac atebolrwydd (Cyfrol 4, Adran 11)** | | | |
| **PCU A1** | Dylai'r corff llywodraethu uchaf mewn perthynas â'r gwasanaeth gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU A1 |
| **PCU A2** | Enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a'r dyletswyddau adrodd a chwyno | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU A2 |
| **PCU A3** | Cael datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau i uwch reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau am reoli risgiau ar y gwasanaeth sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant yn y DU | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr<br>• Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU A3 |
| **PCU A4** | Cael swyddogaeth monitro a sicrwydd mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod mesurau'n effeithiol yn barhaus, ac i adrodd ar ganfyddiadau o'r fath i'w hystyried gan gorff llywodraethu neu bwyllgor archwilio perthnasol | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU A4 |
| **PCU A5** | Olrhain tystiolaeth o fathau newydd o gynnwys prif flaenoriaeth (PPC) a chynnwys â blaenoriaeth (PC) ar y gwasanaeth, a chynnydd anarferol mewn mathau penodol o gynnwys sy'n niweidiol i blant, neu brocsi ar gyfer hyn | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr<br>• Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU A5 |

[4] I gael diffiniadau o swyddogaethau, edrychwch ar y Datganiad Geirfa yn Atodiad 7.

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU A6** | Cael cod ymddygiad sy'n gosod safonau a disgwyliadau ar unigolion sy'n gweithio i'r darparwr er mwyn amddiffyn plant yn y DU ar y gwasanaeth | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr<br>• Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU A6 |
| **PCU A7** | Sicrhau bod rhai unigolion sy'n gweithio i'r darparwr wedi'u hyfforddi'n ddigonol yn y dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a'r dyletswyddau adrodd a chwyno | • Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr<br>• Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU A7 |
| **Telerau gwasanaeth (Cyfrol 4, Adran 12)** | | | |
| **PCU G1** | Cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf mewn telerau a datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU G1 |
| **PCU G2** | Crynhoi canfyddiadau'r asesiad risg plant diweddaraf yn y telerau a'r datganiadau | Darparwyr gwasanaethau Categori 1 | ICU G2 |
| **PCU G3** | Sicrhau bod y telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn glir ac yn hygyrch | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU G3 |
| **Sicrwydd Oedran (Cyfrol 4, Adran 13)** | | | |
| **PCU B1** | Egwyddorion y dylai gwasanaethau eu hystyried wrth weithredu trefniadau sicrwydd oedran effeithiol iawn | Darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant ac sy'n gweithredu proses sicrwydd oedran effeithiol iawn er mwyn gweithredu'n unol ag unrhyw un o'r argymhellion a nodir yn y Codau hyn | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU B2** | Defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â'r prif bwrpas o letya neu ledaenu un math neu fwy o PPC | Dim mesur cyfatebol |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU B3** | Defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â'r prif bwrpas o letya neu ledaenu un math neu fwy o PC | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU B4** | Defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hatal rhag dod ar draws PPC sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• nad lletya neu ledaenu un math neu fwy o PPC yw eu prif bwrpas, ac<br>• nad yw eu telerau gwasanaeth yn gwahardd un math neu fwy o PPC; neu'n<br>• gwahardd pob math o PPC yn eu telerau gwasanaeth ond yn methu dileu'r cynnwys hwnnw ar hyn o bryd | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU B5** | Defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hatal rhag dod ar draws PC sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• nad lletya neu ledaenu un math neu fwy o PC yw eu prif bwrpas, ac<br>• nad yw eu telerau gwasanaeth yn gwahardd un math neu fwy o PC sydd â risg ganolig neu uchel; neu'n<br>• gwahardd un math neu fwy o PC yn eu telerau gwasanaeth sydd â risg ganolig neu uchel iddynt, ond yn methu dileu'r cynnwys hwnnw ar hyn o bryd | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU B6** | Defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i gymhwyso Mesur PCU E1 i blant ar y gwasanaeth | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• nad yw eu telerau gwasanaeth yn gwahardd un math neu fwy o PPC sydd â risg ganolig neu uchel; ac | Dim mesur cyfatebol |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| | | • sydd â system argymell cynnwys | |
| **PCU B7** | Defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i gymhwyso Mesur PCU E2 i blant ar y gwasanaeth | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• nad yw eu telerau gwasanaeth yn gwahardd un math neu fwy o PC neu NDC sydd â risg ganolig neu uchel; ac<br>• sydd â system argymell cynnwys | Dim mesur cyfatebol |
| **Cymedroli cynnwys ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (Cyfrol 4, Adran 14)** | | | |
| **PCU C1** | Cael swyddogaeth cymedroli cynnwys i adolygu ac asesu amheuon o gynnwys sy'n niweidiol i blant | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU C1 |
| **PCU C2** | Cael swyddogaeth cymedroli cynnwys sy'n caniatáu i weithredu'n gyflym ar gynnwys sy'n niweidiol i blant, lle mae'n dechnegol ymarferol cymryd camau priodol ar hyn o bryd | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU C2 |
| **PCU C3** | Gosod polisïau cynnwys mewnol | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C3 |
| **PCU C4** | Gosod a chofnodi targedau perfformiad | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C4 |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU C5** | Paratoi a gweithredu polisi ar gyfer blaenoriaethu cynnwys i'w adolygu | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C5 |
| **PCU C6** | Darparu adnoddau ar gyfer y swyddogaeth cymedroli cynnwys i roi PCU C3 a PCU C4 ar waith | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C6 |
| **PCU C7** | Darparu hyfforddiant a deunyddiau i unigolion sy'n gweithio ar gymedroli (nad ydynt yn wirfoddolwyr) | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C7 |
| **PCU C8** | Darparu deunyddiau i wirfoddolwyr yn y swyddogaeth cymedroli cynnwys | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU C8 |
| **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr (Cyfrol 4, Adran 16)** | | | |
| **PCU D1** | Meddu ar brosesau cwyno sy'n galluogi pobl i wneud cwynion perthnasol am ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D1 |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU D2** | Meddu ar systemau cwyno tryloyw sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D2 |
| **PCU D3** | Darparu gwybodaeth cyn cyflwyno cwyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU D3 |
| **PCU D4** | Cydnabod derbyn cwynion gydag amserlen ddangosol | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â risg ganolig neu uchel o unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU D4 |
| **PCU D5** | Anfon rhagor o wybodaeth am y broses o ddelio â'r gŵyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â risg ganolig neu uchel o unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU D5 |
| **PCU D6** | Optio allan o gyfathrebiadau yn dilyn cwyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â risg ganolig neu uchel o unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU D6 |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o’r Mesur | Darparwyr y mae’r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU D7** | Camau priodol ar gyfer cwynion perthnasol am gynnwys sy’n cael ei ystyried yn niweidiol i blant | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D7 |
| **PCU D8** | Gosod targedau perfformiad a darparu adnoddau eu hunain er mwyn rhoi’r targedau hynny ar waith ar gyfer cwynion perthnasol sy’n apeliadau cynnwys | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy’n aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | ICU D8 |
| **PCU D9** | Penderfynu ar apeliadau cynnwys yn brydlon | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd ddim yn fawr nac yn aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant | ICU D9 |
| **PCU D10** | Camau gweithredu yn dilyn penderfyniad ar gyfer cwynion perthnasol sy’n apeliadau cynnwys | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D10 |
| **PCU D11** | Camau priodol ar gyfer apeliadau asesu oedran. Dylai darparwyr osod targedau perfformiad a darparu adnoddau eu hunain i roi’r targedau hynny ar waith | • Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU D12** | Camau priodol ar gyfer apeliadau asesu oedran a phennu’r camau hynny’n brydlon | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd ddim yn fawr nac yn aml-risg ar gyfer cynnwys sy’n niweidiol i blant | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU D13** | Camau priodol ar gyfer cwynion perthnasol am ddiffyg cydymffurfio â’r dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a’r dyletswyddau adrodd ar gynnwys | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D12 |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o’r Mesur | Darparwyr y mae’r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU D14** | Caiff darparwyr ddiystyru cwynion penodol fel rhai sy’n amlwg yn ddi-sail, os oes ganddynt bolisi ar waith sy’n nodi sut maen nhw’n penderfynu bod cwyn yn amlwg yn ddi-sail | Darparwyr yr holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | ICU D13 |
| **Systemau argymell ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (Cyfrol 4, Adran 17)** | | | |
| **PCU E1** | Sicrhau bod systemau argymell cynnwys yn cael eu dylunio a’u gweithredu fel bod cynnwys y nodir ei fod yn PPC o bosibl yn cael ei eithrio o ffrydiau sy’n cael eu hargymell i blant | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â system argymell cynnwys yn rhan o’r gwasanaeth sy’n hygyrch i blant; ac<br>• sydd â risg ganolig neu uchel o un neu ragor o fathau penodol o PPC | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU E2** | Sicrhau bod systemau argymell cynnwys yn cael eu dylunio a’u gweithredu fel bod cynnwys y nodir ei fod yn PC neu’n NDC o bosibl yn cael ei eithrio neu’n cael lefel isel o amlygrwydd yn y ffrydiau sy’n cael eu hargymell i blant | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â system argymell cynnwys yn rhan o’r gwasanaeth sy’n hygyrch i blant; ac<br>• sydd â risg ganolig neu uchel o un neu ragor o fathau penodol o PC (heblaw am gynnwys bwlio) a/neu NDC | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU E3** | Galluogi plant i roi adborth negyddol ar gynnwys sy’n cael ei argymell iddynt ac sy’n cael ei ystyried o ran sut mae cynnwys yn cael ei argymell iddynt | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr:<br>• sydd â system argymell cynnwys yn rhan o’r gwasanaeth sy’n hygyrch i blant; ac<br>• sydd â risg ganolig neu uchel o ddau neu ragor o fathau penodol o gynnwys sy’n niweidiol i blant (ac eithrio cynnwys am fwlio) | Dim mesur cyfatebol |
| **Cymorth i ddefnyddwyr (Cyfrol 4, Adran 18)** | | | |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU J1** | Rhoi dewis i blant rwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr eraill | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â risg uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys am fwlio, cynnwys difrïol a chasineb, neu gynnwys treisgar; ac<br>• sydd â chynnwys proffiliau defnyddwyr a swyddogaethau penodol ar gyfer rhyngweithio â defnyddwyr[5]<br>Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU:<br>• sydd â risg ganolig ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys am fwlio, cynnwys difrïol a chasineb, neu gynnwys treisgar; ac<br>• sydd â chynnwys proffiliau defnyddwyr a swyddogaethau penodol ar gyfer rhyngweithio â defnyddwyr[6] | ICU J1 |
| **PCU J2** | Rhoi dewis i blant analluogi sylwadau ar eu cynnwys | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â risg uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan- | ICU J2 |

[5] O leiaf un o'r canlynol; cysylltiad â defnyddiwr; postio cynnwys a chyfathrebu rhwng defnyddwyr (gan gynnwys negeseuon uniongyrchol a gwneud sylwadau ar gynnwys).
[6] O leiaf un o'r canlynol; cysylltiad â defnyddiwr; postio cynnwys a chyfathrebu rhwng defnyddwyr (gan gynnwys negeseuon uniongyrchol a gwneud sylwadau ar gynnwys).

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| | | niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys am fwlio, cynnwys difrïol a chasineb, neu gynnwys treisgar; ac<br>• sydd â'r gallu i wneud sylwadau ar gynnwys<br>Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd â mwy na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU:<br>• sydd â risg ganolig ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys am fwlio, cynnwys difrïol a chasineb, neu gynnwys treisgar; ac<br>• sydd â'r gallu i wneud sylwadau ar gynnwys | |
| **PCU J3** | Rhoi dewis i blant dderbyn neu wrthod gwahoddiad i ymuno â sgwrs grŵp | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys pornograffig, cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys am fwlio, cynnwys difrïol a chasineb, neu gynnwys treisgar; ac<br>• sydd â swyddogaeth negeseuon grŵp | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU F1** | Darparu deunyddiau cymorth sy'n benodol i oedran i ddefnyddwyr sy'n blant | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | Dim mesur cyfatebol |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU F2** | Rhoi gwybodaeth i blant pan fyddan nhw'n cyfyngu ar eu cynnwys neu ryngweithiadau â chyfrifon eraill | Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr:<br>• aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICU F2 (wedi'i adlewyrchu'n rhannol) |
| **PCU F3** | Cyfeirio plant at gymorth ar adegau pwysig yn nhaith y defnyddiwr | Pan fydd plant yn rhoi gwybod am gynnwys:<br>Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta neu gynnwys bwlio | Dim mesur cyfatebol |
| **PCU F4** | Cyfeirio plant at gymorth ar adegau pwysig yn nhaith y defnyddiwr | Pan fydd plant yn postio neu'n ail-bostio cynnwys niweidiol:<br>Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr:<br>• sydd â chynnwys swyddogaethau postio/ail-bostio, ac<br>• sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta neu gynnwys bwlio; a<br>• cael dulliau, mesurau neu brosesau sy'n eu gwneud yn ymwybodol pan fydd defnyddiwr yn postio neu'n ail-bostio cynnwys a allai fod yn ymwneud â chynnwys am hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylder bwyta neu fwlio | Dim mesur cyfatebol |

| Rhif y mesur | Disgrifiad o’r Mesur | Darparwyr y mae’r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCU F5** | Cyfeirio plant at gymorth ar adegau pwysig yn nhaith y defnyddiwr | Pan fydd plant yn chwilio am gynnwys niweidiol:<br>Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• sydd â swyddogaeth chwilio am gynnwys sy’n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, ac<br>• sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o’r canlynol: cynnwys am hunanladdiad, cynnwys am hunan-niweidio neu gynnwys am anhwylder bwyta; ac<br>• sy’n cynnwys dulliau sy’n eu galluogi i nodi pan fydd defnyddiwr yn chwilio am gynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylder bwyta | Dim mesur cyfatebol |

# Mesurau ar gyfer gwasanaethau chwilio

**Tabl 2: Y Cod Ymarfer ar Amddiffyn Plant ar gyfer gwasanaethau chwilio, sy’n debygol o gael eu defnyddio gan blant**

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o’r Mesur | Darparwyr y mae’r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac atebolrwydd (Cyfrol 4, Adran 11)** | | | |
| **PCS A1** | Dylai’r corff llywodraethu uchaf mewn perthynas â’r gwasanaeth gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg | Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS A1 |
| **PCS A2** | Enwi unigolyn sy’n atebol i’r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â’r dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a’r dyletswyddau adrodd a chwyno | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS A2 |

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCS A3** | Cael datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau i uwch reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau am reoli risgiau ar y gwasanaeth sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant yn y DU | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS A3 |
| **PCS A4** | Cael swyddogaeth monitro a sicrwydd mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod mesurau'n effeithiol yn barhaus, ac i adrodd ar ganfyddiadau o'r fath i'w hystyried gan gorff llywodraethu neu bwyllgor archwilio perthnasol | Darparwyr gwasanaethau chwilio mawr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICS A4 |
| **PCS A5** | Olrhain tystiolaeth o fathau newydd o gynnwys prif flaenoriaeth (PPC) a chynnwys â blaenoriaeth (PC) ar y gwasanaeth, a chynnydd anarferol mewn mathau penodol o gynnwys sy'n niweidiol i blant, neu brocsi ar gyfer hyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS A5 |
| **PCS A6** | Cael cod ymddygiad sy'n gosod safonau a disgwyliadau ar unigolion sy'n gweithio i'r darparwr er mwyn amddiffyn plant yn y DU ar y gwasanaeth | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS A6 |
| **PCS A7** | Sicrhau bod rhai unigolion sy'n gweithio i'r darparwr wedi'u hyfforddi'n ddigonol yn y dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a'r dyletswyddau adrodd a chwyno | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS A7 |
| **Datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd (Cyfrol 4, Adran 12)** | | | |
| **PCS G1** | Cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf mewn telerau a datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS G1 |

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCS G2** | Crynhoi canfyddiadau'r asesiad risg plant diweddaraf yn y telerau a'r datganiadau | • Darparwyr gwasanaethau Categori 2a | ICS G2 |
| **PCS G3** | Sicrhau bod y telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn glir ac yn hygyrch | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS G3 |
| **Cymedroli chwiliadau (Cyfrol 4, Adran 15)** | | | |
| **PCS C1** | Cael systemau a phrosesau cymedroli ar waith i adolygu, asesu a chymryd camau priodol ar gynnwys sy'n niweidiol i blant | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ISC C1 |
| **PCS C2** | Hidlo cynnwys prif flaenoriaeth ar gyfer defnyddwyr y pennir eu bod yn blant | Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | Dim mesur cyfatebol |
| **PCS C3** | Gosod polisïau cynnwys mewnol | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS C2 |
| **PCS C4** | Gosod a chofnodi targedau perfformiad | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS C3 |
| **PCS C5** | Paratoi a gweithredu polisi ar gyfer blaenoriaethu cynnwys i'w adolygu | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS C4 |
| **PCS C6** | Darparu adnoddau ar gyfer y swyddogaeth cymedroli chwiliadau i roi PCS C3 a PCS C4 ar waith | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS C5 |

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCS C7** | Darparu hyfforddiant a deunyddiau i unigolion sy'n gweithio ar gymedroli (nad ydynt yn wirfoddolwyr) | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS C6 |
| **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr (Cyfrol 4, Adran 16)** | | | |
| **PCS D1** | Meddu ar brosesau cwyno sy'n galluogi pobl i wneud cwynion perthnasol am ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D1 |
| **PCS D2** | Meddu ar systemau cwyno tryloyw sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D2 |
| **PCS D4** | Cydnabod derbyn cwynion gydag amserlen ddangosol | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS D3 |
| **PCS D5** | Anfon rhagor o wybodaeth am y broses o ddelio â'r gŵyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS D4 |
| **PCS D6** | Optio allan o gyfathrebiadau yn dilyn cwyn | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer unrhyw fath o gynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS D5 |

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCS D7** | Camau priodol ar gyfer cwynion perthnasol am gynnwys sy'n cael ei ystyried yn niweidiol i blant | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D6 |
| **PCS D8** | Gosod targedau perfformiad ac adnoddau ei hun er mwyn rhoi'r targedau hynny ar waith ar gyfer cwynion perthnasol sy'n apeliadau cynnwys | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | ICS D7 |
| **PCS D9** | Penderfynu ar apeliadau cynnwys yn brydlon | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sydd ddim yn fawr nac yn aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | ICS D8 |
| **PCS D10** | Camau gweithredu yn dilyn penderfyniad ar gyfer cwynion perthnasol sy'n apeliadau cynnwys | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D9 |
| **PCS D11** | Camau priodol ar gyfer apeliadau asesu oedran. Dylai darparwyr osod targedau perfformiad ac adnoddau eu hunain i roi'r targedau hynny ar waith | • Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant<br>• Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr | Dim mesur cyfatebol |
| **PCS D12** | Camau priodol ar gyfer apeliadau asesu oedran a phennu'r camau hynny'n brydlon | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sydd ddim yn fawr nac yn aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | Dim mesur cyfatebol |
| **PCS D13** | Camau priodol ar gyfer cwynion perthnasol am ddiffyg cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch i amddiffyn plant a'r dyletswyddau adrodd ar gynnwys | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D11 |
| **PCS D14** | Caiff darparwyr ddiystyru cwynion penodol fel rhai sy'n amlwg yn ddi-sail, os oes ganddynt bolisi ar waith sy'n nodi sut maen nhw'n penderfynu bod cwyn yn amlwg yn ddi-sail | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio | ICS D12 |
| **Cymorth i Ddefnyddwyr (Cyfrol 4, Adran 18)** | | | |

| Rhif y Mesur | Disgrifiad o'r Mesur | Darparwyr y mae'r mesur hwn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer niwed anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **PCS F4** | Darparu deunyddiau cymorth sy'n benodol i oedran i ddefnyddwyr sy'n blant | Darparwyr yr holl wasanaethau chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | Dim mesur cyfatebol |
| **Nodweddion chwilio, swyddogaethau a chymorth i ddefnyddwyr (Cyfrol 4, Adran 19)** | | | |
| **PCS F1** | Cynnig ffordd i ddefnyddwyr roi gwybod yn hawdd am awgrymiadau chwilio rhagfynegol sy'n ymwneud â PPC a PC. Pe canfyddir risg glir a sylweddol, cymryd camau priodol i sicrhau nad yw'r awgrym darogan testun chwilio sydd wedi'i riportio yn cael ei argymell i unrhyw ddefnyddwyr | Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr sy'n defnyddio swyddogaeth darogan testun wrth chwilio. | ICS F1 |
| **PCS F3** | Darparu gwybodaeth am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio sy'n cynnwys ymholiadau cyffredinol neu ymholiadau sy'n gofyn am wybodaeth benodol, ymarferol neu addysgiadol am hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta | Darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr. | ICS F3 |